Home-Start Cymru

# Recriwtio Gwirfoddolwyr

## Pecyn cymorth i randdeiliaid

#GydanGilyddGallwn



# Cyflwyniad

Mae Home-Start Cymru yn annog pobl i ystyried gwirfoddoli i gefnogi teuluoedd yn y cymunedau lleol ledled Cymru. Daw’r alwad mewn ymateb i’r galw cynyddol am gymorth gan deuluoedd mewn angen.
Byddwn yn lansio’r ymgyrch “Gyda’n Gilydd Gallwn” ar 7 Medi 2022 i ysbrydoli pobl ledled y wlad i ystyried gwirfoddoli gyda ni a’u hannog i gofrestru ar gyfer cyfleoedd.

Rydym yn gofyn i bartneriaid helpu Home-Start Cymru i recriwtio gwirfoddolwyr i helpu teuluoedd sy’n wynebu heriau ac rydym wedi creu’r adnoddau isod at eich defnydd.



## Beth yw

## Home-Start Cymru?

Mae Home-Start Cymru yn elusen sydd â rhwydwaith cymunedol lleol o wirfoddolwyr hyfforddedig a chymorth medrus sy'n helpu teuluoedd â phlant ifanc drwy amseroedd heriol. Rydyn ni yno i rieni pan maen nhw ein hangen ni fwyaf oherwydd ni all plentyndod aros.

Mae ein gwirfoddolwyr hyfforddedig yn ymweld â theuluoedd yn eu cartrefi eu hunain am rhwng dwy a thair awr yr wythnos i gynnig pâr ychwanegol o ddwylo neu glust i wrando er mwyn rhoi cymorth ymarferol ac emosiynol i rieni, gan eu helpu i adeiladu dyfodol gwell ar gyfer eu teuluoedd.



# Beth rydyn ni'n gofyn i chi ei wneud?

Rydym yn gofyn i chi helpu i godi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd gwirfoddoli sydd ar gael drwy rannu negeseuon allweddol yr ymgyrch â'ch cynulleidfaoedd.

Rydym hefyd yn teimlo y bydd eich cefnogaeth yn helpu i ddod â hygrededd ychwanegol i'r negeseuon a byddwn yn cynorthwyo i ddarparu cyrhaeddiad eang i'r ymgyrch.

Byddwch hefyd yn helpu rhieni sydd mewn angen ddod o hyd i'r gefnogaeth sydd ei hangen arnynt yn ystod y cyfnod heriol hwn.



# Sut gallwch chi helpu i hyrwyddo'r ymgyrch hon

Rydym yn gwerthfawrogi'n fawr eich cymorth i hyrwyddo'r ymgyrch hon ac ymgysylltu â'ch rhwydwaith.
Mae ffyrdd y gallwch chi helpu yn cynnwys y canlynol:

**Annog ymgysylltiad ar gyfryngau cymdeithasol:**
Rydym wedi cynnwys negeseuon cyfryngau cymdeithasol drafft isod, y gallwch eu rhannu ar eich sianeli cyfryngau cymdeithasol eich hun (ynghyd â graffeg ac animeiddiadau ymgyrch a ddarperir). Mae croeso i chi deilwra'r negeseuon ar gyfer eich cymuned, a chofiwch ein tagio yn eich negeseuon!
**Twitter: @homestartcymru**
**Instagram: @homestartcymru**
**Facebook: @hscymru**

**Rhannu ein fideo:**
Rydym wedi creu fideo am ein cyfleoedd gwirfoddoli. Rhannwch ef ar eich sianeli cymdeithasol i helpu eraill i ddeall y gwasanaethau rydym yn eu cynnig.

**E-bostio eich rhwydwaith:**
Anfonwch e-bost at eich rhwydwaith, neu cynhwyswch ddarn byr yn eich cylchlythyr nesaf, i roi gwybod iddynt sut i gymryd rhan. Rydym wedi cynnwys y testun a awgrymir isod, y gallwch ei deilwra fel y gwelwch yn dda. Gofynnwch i'ch cysylltiadau i gefnogi'r ymgyrch ac ymunwch â'r sgwrs.

**Ychwanegu at eich cylchlythyr:**
Defnyddiwch y broliant isod fel cynnwys erthygl newyddion neu ddiweddariad blog ar eich mewnrwyd.

# Negeseuon cyfryngau cymdeithasol a awgrymir:

- Rydym yn cefnogi ymgyrch #GydanGilyddGallwn @homestartcymru. Maen nhw'n chwilio am wirfoddolwyr newydd i gefnogi teuluoedd mewn angen. Dysgwch fwy am wirfoddoli yn https://bit.ly/HSCVolunteering.

- Rydym yn cefnogi @homestartcymru, sy’n cefnogi ac yn grymuso teuluoedd i alluogi eu plant i ffynnu. Mae eu gwirfoddolwyr yn darparu cymorth ymarferol, emosiynol ac ariannol, gan helpu rhieni i adeiladu dyfodol gwell i'w teuluoedd. Allech chi fod yno i deulu yn eich cymuned? #GydanGilyddGallwn

- Nid yw gwaith gwirfoddolwyr @homestartcymru erioed wedi bod yn fwy brys a phwysig. Maent yn darparu cymorth emosiynol ac ymarferol i deuluoedd. #GydanGilyddGallwn helpu teuluoedd pan fyddant ei angen fwyaf. Darganfyddwch fwy a chofrestrwch.

- #GydanGilyddGallwn wneud gwahaniaeth. Mae ymgyrch Home-Start Cymru yn galw ar bobl dosturiol i ddod yn wirfoddolwyr a chefnogi teuluoedd sy’n wynebu heriau. Dysgwch am ddod yn wirfoddolwr @homestartcymru yma:https://bit.ly/HSCVolunteering.

- #GydanGilyddGallwn newid bywydau teuluoedd. Mae ymgyrch @homestartcymru yn galw ar bobl dosturiol i ddod yn wirfoddolwr a gwneud gwahaniaeth i deulu yn eich cymuned.

- Os ydych chi'n amyneddgar, yn dosturiol ac yn awyddus i wneud gwahaniaeth? #GydanGilyddGallwn helpu teuluoedd. Dysgwch fwy am wirfoddoli gyda @homestartcymru. Darganfyddwch fwy yn https://bit.ly/HSCVolunteering.

- #GydanGilyddGallwn wneud gwahaniaeth enfawr i deuluoedd. Felly, os ydych yn feddylgar ac yn ddibynadwy, edrychwch ar wirfoddoli gyda @homestartcymru yn https://bit.ly/HSCVolunteering.

- We are supporting @homestartcymru’s #TogetherWeCan campaign. They are looking for new volunteers to support families in need. Find out more volunteering at https://bit.ly/HSCVolunteering.

- We’re supporting @homestartcymru, which supports and empowers families to enable their children to thrive. Their volunteers provide practical, emotional and financial support, helping parents to build a better future for their families. Could you be there for a family in your community? #TogetherWeCan

- The work of @homestartcymru volunteers has never been more urgent and important. They provide emotional and practical support to families. #TogetherWeCan help families when they need it most. Find out more and sign up.

- #TogetherWeCan make a difference. Home-Start Cymru campaign is calling on compassionate people to volunteer for Home-Start Cymru. Learn about becoming a @homestartcymru volunteer here:https://bit.ly/HSCVolunteering.

- #TogetherWeCan change families’ lives. @homestartcymru campaign is calling on compassionate people to become a volunteer and make a difference to a family in your community.

- If you’re patient, compassionate and looking to make a difference? #TogetherWeCan help families. Learn more about volunteering with Home-Start Cymru. Find out more at https://bit.ly/HSCVolunteering.

- #TogetherWeCan make a huge difference to families. So, if you are thoughtful and dependable, look at volunteering with @homestartcymru at https://bit.ly/HSCVolunteering.

# Copi cylchlythyr:

Mae Home-Start Cymru wedi lansio ymgyrch recriwtio gwirfoddolwyr newydd i recriwtio dros 200 o wirfoddolwyr ar draws 18 awdurdod lleol yng Nghymru.

Mae Home-Start Cymru wedi ymrwymo i helpu teuluoedd sy'n wynebu heriau drwy ddarparu cymorth emosiynol ac ymarferol.

Mae eu rhwydwaith amhrisiadwy o wirfoddolwyr yn cefnogi rhieni a'u teuluoedd pan fyddant ei angen fwyaf, gan wneud gwahaniaeth gwirioneddol yn eu cymuned a grymuso rhieni i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i'w plant.
Mae dod yn wirfoddolwr Home-Start Cymru yn ffordd ystyrlon o helpu rhai o deuluoedd bregus Cymru. Yn gyfnewid am hyn, byddant yn darparu hyfforddiant, arweiniad a chefnogaeth sydd eu hangen arnoch i fod yn effeithiol a gwneud gwahaniaeth gwirioneddol, a'r cyfle i gwrdd â phobl newydd, gwella lles a datblygu sgiliau trosglwyddadwy i'w cymryd yn y gweithle.

Dysgwch fwy am gyfleoedd gwirfoddoli Home-Start Cymru yn https://bit.ly/HSCVolunteering.

Home-Start Cymru has launched a new volunteer recruitment campaign to recruit over 200 volunteers across 18 local authorities in Wales.

Home-Start Cymru is a dedicated to helping families who are facing challenges by providing emotional and practical support.

Their invaluable network of volunteers supports parents and their families when they need it most, making a real difference in their community and empowering parents to give their children the best start in life.

Becoming a Home-Start Cymru volunteer is a meaningful way to help some of the Wales' vulnerable families. In return they will provide training and the opportunity to meet new people.

Find out more about Home-Start Cymru's volunteering opportunities at https://bit.ly/HSCVolunteering.

# Diolch am eich cefnogaeth.

Rydyn ni'n mawr obeithio, trwy'r ymgyrch hon, y gallwn ni wneud gwahaniaeth i nifer y bobl sy'n holi am wirfoddoli gyda Home-Start Cymru. Felly, ni waeth sut rydych chi'n dewis ein helpu i ledaenu'r neges, rydyn ni eisiau dweud diolch.

Byddem wrth ein bodd petaech yn parhau i gefnogi’r ymgyrch ar ôl Medi 2022.

Os hoffech gymryd rhan neu os oes gennych gwestiynau, awgrymiadau, neu sylwadau, cysylltwch â’r tîm yn info@homestartcymru.org.uk.




HOME START Cymru